Maes Dysgu a Phrofiad: Y Celfyddydau Mynegiannol

Area of Learning and Experience: The Expressive Arts

Bwriad y Maes Dysgu a Phrofiad hwn yw... / The purpose of this Area of Learning and Experience is...

Mae'r Celfyddydau yn chwarae rôl hanfodol ym mywyd pob un ohonom. Mae dysgu a phrofiad yn y Maes hwn yn annog datblygu gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd fydd o gymorth i ddysgwyr fanteisio ar bob cyfle fydd yn codi yn eu bywydau, gan wynebu'r heriau. Bydd dysgwyr yn datblygu empathi wrth geisio dehongli ac uniaethu gydag eraill trwy waith cymeriadu neu trwy ddehongli Cerddoriaeth a Chelf, ac yn eu helpu i fagu lles a hyder personol. Mi fydd y Celfyddydau yn cynnig y cyfle i weithio gydag eraill yn greadigol wrth wylio, cynllunio, cyfansoddi, creu, perfformio a gwerthuso darnau cyfoes a chyffrous, bydd hyn yn arwain at well dealltwriaeth o'u hunaniaeth. Bydd y profiad o wylio cynyrchiadau a chyngherddau byw, ymweld ag orielau, ymchwilio ac arbrofi gyda gwaith artistiaid lleol yn rhan allweddol o'r Maes. Bydd hyn oll yn cefnogi'r dysgwyr i ddod i adnabod yr hyn sydd gan eu cynefin i'w gynnig, a'r rôl ysbrydoledig sydd gan Gymru i chwarae o fewn y Maes.

The Arts play a vital role in our lives. The creative process enables learners to explore complex issues, to challenge perceptions and to identify solutions. Learners will develop empathy through characterisation work, interpreting Music and Art, to help them to gain personal well-being, confidence and understanding of themselves and of others. The Arts will offer the opportunity to work creatively and collaboratively to devise, compose, create, perform and evaluate contemporary and exciting work, this will lead to a better understanding of their identity and help develop their creativity. The experience of watching live productions and concerts, visiting galleries, researching and experimenting with the work of local artists will be a key aspect of the work. From this experience they are supported to become ethical, informed citizens of Wales.

Am beth bydd y disgyblion yn dysgu a sut byddan nhw'n dysgu? What will the pupils learn and how will they learn?

Trwy gydol Blynyddoedd 7, 8, a 9 bydd y disgyblion yn derbyn amrywiaeth o brofiadau yn y maes hwn. Bydd y gwaith yn ffocysu ar 4 Diben y cwricwlwm, a byddwn yn defnyddio egwyddorion Asesu ar gyfer Dysgu i helpu'r disgyblion symud ymlaen. Gall natur ddeinamig y Celfyddydau ysgogi ac ennyn diddordeb dysgwyr a'u cymell i ddatblygu i'r eithaf eu sgiliau creadigol ac artistig ynghyd â'u sgiliau perfformio. Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol yn cwmpasu pum disgyblaeth, sef Celf, Cerddoriaeth, Dawns, Drama, a Ffilm a'r Cyfryngau Digidol. Mae dysgu a phrofiad yn y maes hwn yn annog datblygu gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd fydd o gymorth i ddysgwyr ddal ar bob cyfle fydd yn codi yn eu bywydau, gan wynebu'r heriau. Boed fel rhai sy'n creu neu fel rhan o gynulleidfa, trwy ymwneud â'r Celfyddydau gall dysgwyr ddod i ddeall a gwerthfawrogi diwylliannau a chymdeithasau yng Nghymru a'r byd. Trwy hyn gall dysgwyr feithrin sgiliau i archwilio amrywiaeth ddiwylliannol mewn lleoedd a chyfnodau gwahanol.

Throughout years 7, 8 and 9 the learners will receive a variety of experiences in this area. The work will focus on the 4 purposes of the curriculum, and we will use Assessment for Learning to help the pupils progress. The dynamic nature of the Arts can engage, motivate and encourage learners to develop their creative, artistic and performance skills to the full. The Arts Area of Learning and Experience spans five disciplines: Art, Dance, Drama, Film and Digital Media and Music. Although each discipline has its own discrete body of knowledge and body of skills, it is recognised that together they share the creative process. Learning and experience in this area encourages the development of knowledge, skills and values that can help learners grasp the opportunities and meet the challenges that arise in their lives. Whether as creators or as audience, through engaging with the expressive arts, learners can gain an understanding and an appreciation of cultures and societies in Wales and in the world. Such engagement can equip learners with the skills to explore cultural differences through time and place.

Ym Mlwyddyn 7, mi fydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau creadigol megis creu a pherfformio. Yn y gwersi Drama bydd ffocws ar ddatblygu eu sgiliau hanfodol ac i wneud hynny trwy ystod o ffurfiau creadigol, megis perfformio ac ysyried effaith eu gwaith ar gynulleidfa; bydd y thema 'Dyma Fi' yn gyrru'r gwaith. Yn y gwersi Celf bydd y dysgwyr yn canolbwyntio ar ddylunio hunan bortreadau wedi'u dylanwadu gan waith yr artist, Julian Opie. Yn y gwersi Cerdd bydd y dysgwyr yn canolbwyntio ar ddehongli cerddoriaeth gan artistiaid lleol a'u hoff gerddoriaeth cyn mynd ati i gyfansoddi darnau eu hunain.

In Year 7, learners will develop their essential creative skills such as creating and performing. The Drama lessons will focus on developing practical key skills and to do so through a range of creative forms, such as performing and the impact of their work on an audience, the theme 'This is Me' will drive the work. Art will provide an opportunity for learners to design and draw self-portraits, influenced by the work of artist, Julian Opie. In the Music lessons learners will interpret music from local artists as well as their favourite music, and composing their own songs.

Ym Mlwyddyn 8, mi fydd y dysgwyr yn parhau i ddatblygu eu sgiliau creadigol o fewn y maes. Yn y gwersi Drama, bydd dysgwyr yn astudio cynyrchiadau byw megis 'A Monster Calls', ac yn cael y cyfle i arbrofi gyda thechnoleg ddigidol a'i gysylltiad â dylunio theatr. Yn ogystal, bydd cyfle i archwilio, arbrofi a dadansoddi dawns dros y cyfnodau, yn ogystal â dawns gyfoes. Yn y gwersi Celf bydd ffocws ar ddylanwad artistiaid dros sawl degawd, gan roi sylw i ar *Pop Art* y chwedegau. Yn y gwersi Cerdd, bydd dysgwyr yn astudio Sioeau Cerdd, megis Brodyr Gwaed gan wneud ymchwilio ar arbrofi gyda cherddoriaeth y cyfnod. Mi fydden nhw'n gweithio gyda eraill i gyfansoddi a pherfformio darnau eu hunain.

In Year 8, learners will continue to develop their essential creative skills within the Arts. In Drama lessons, learners will study live productions such as 'A Monster Calls', and have the opportunity to experiment with digital technology and its link to theatre design. In addition, there will be an opportunity to explore and experiment with dance through the ages, as well as contemporary dance. Art will be a focus on the influence of artists over several decades, addressing Pop Art of the sixties. In Music, learners will study Musicals, such as Blood Brothers, and research and explore music of the era. They will work collaboratively to compose and perform extracts of their own creations.

Ym Mlwyddyn 9, mi fydd y disgyblion yn cael y cyfle i feistroli'r sgiliau creadigol hanfodol o fewn y Celfyddydau. Yn y gwersi Drama bydd y dysgwyr yn archwilio, arbrofi, creu a pherfformio darn o theatr gan dynnu ysbrydoliaeth o arddulliau theatr megis Theatr Gorfforol a Dawns. Yn y gwersi Celf, bydd dysgwyr yn arbrofi gydag arddulliau a deunyddiau gwahanol megis gwaith Keith Harring. Yn y gwersi Cerdd bydd ffocws ar wahanol arddulliau, a dylanwad sain a cherddoriaeth ar theatr byw, ffilm a theledu.

In Year 9, pupils will have the opportunity to fine tune their essential creative skills within the Arts. In Drama lessons learners will explore, experiment, create and perform a piece of theatre, drawing inspiration from theatre styles such as Physical Theatre and Dance. In Art, learners will experiment with different styles and materials such as Keith Harring's work. In Music lessons, learners will develop their understanding of different genres, and the influence of sound and music on live theatre, film and television.